# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Clive Lloyd | **Adran Etholiadol:** | St Thomas |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Trawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes / Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Hoffwn ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn drwy ddiolch i breswylwyr a chymunedau ward St Thomas am fy ailethol a'm cydweithiwr, y Cynghorydd Joe Hale, yn etholiadau'r llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Mae'r gefnogaeth rydym yn parhau i'w derbyn yn ysgubol ac mae'n fy ngwneud i'n hynod falch o gynrychioli'r gymuned fendigedig hon.

Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn hynod brysur unwaith eto ac rwyf wedi parhau i geisio cynrychioli'n preswylwyr hyd eithaf fy ngallu.

**Cymorthfeydd ward** - Rydym wedi parhau i weithredu cymorthfeydd ward ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis rhwng 11:00 a chanol dydd. Rydym yn newid lleoliadau, sydd bellach yn cynnwys Neuadd Eglwys St Thomas, Cenhadaeth Gwyn, Neuadd Eglwys Bae Fabian, Canolfan Gymunedol Port Tennant a Neuadd Eglwys Illtyd Sant. Yn ogystal â hyn, rwy'n ceisio mynd i ddigwyddiad Ail Gyfle Grŵp Cymunedol GSP bob dydd Mercher am tua 10:30. Gallwch hefyd fy ffonio ar fy ffôn symudol ac mae fy manylion ar hysbysfyrddau o gwmpas y ward ac ar wefan Cyngor Abertawe.

**Cyfarfodydd â phreswylwyr** - rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd â phreswylwyr dros y flwyddyn mewn lleoliadau amrywiol sy'n cynnwys Neuadd Eglwys St Thomas, Canolfan Gymunedol Port Tennant a Chenhadaeth Gwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd wedi ymdrin â materion cynllunio ond maent hefyd wedi ymdrin â phryderon preswylwyr ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cyffuriau.

**Materion ward** - Rwy'n parhau i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n cynnwys y canlynol: Tai, tipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd, parcio preswylwyr, cilfachau parcio i'r anabl, glanhau strydoedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Cynllunio/HMO** - Rwyf wedi treulio rhan helaeth o'm hamser yn mynd i'r afael â pholisi a fydd yn rheoli nifer y Tai Amlfeddiannaeth sy'n cael eu datblygu yn ward St Thomas. Cyflwynwyd polisi/Canllawiau Cynllunio Atodol i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Mehefin 2017 ond gwrthodwyd hyn gan y pwyllgor. Mae hyn wedi golygu bod ceisiadau cynllunio wedi parhau i gael eu cyflwyno wrth i arweiniad newydd gael ei ddatblygu. Rwyf wedi bod yn bresennol yn llawer o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i geisio dadlau yn erbyn crynhoad pellach o HMO pan oedd hyn yn briodol. Wrth i fi ysgrifennu'r adroddiad hwn, rwy'n gobeithio y caiff dulliau rheoli eu cyflwyno fel rhan o broses gytuno'r CDLl yn gynnar yn 2019. Mae hwn yn fater hynod bwysig ac mae'n bwysig bod y dulliau rheoli cywir yn cael eu gweithredu. Rwyf hefyd wedi cynrychioli'r ward wrth siarad am geisiadau megis y datblygiad llety i fyfyrwyr ar Heol y Brenin a datblygiad llety i fyfyrwyr y Cape Horner.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

**Materion tai** – Rwyf wedi cynorthwyo llawer o unigolion gyda'u hymholiadau tai, gan gynnwys tenantiaid y cyngor a chymdeithasau tai. Mae'r gwaith gwella i ffensys ferandâu hefyd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn e.e. Heol Parc Grenfell.

**Priffyrdd** - rwyf wedi pwyso ar y cyngor i gael gwelliannau i'r ffyrdd ac rydym wedi gweld nifer o ffyrdd yn cael eu hailwynebu e.e. Teras Ormesby a Heol Port Tennant.

**Tipio'n anghyfreithlon** - Yn anffodus, mae tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem. Rwyf wedi cwrdd â swyddogion y cyngor yn rheolaidd mewn lleoliadau megis Heol Marcroft a Stryd Grafog. Mae hefyd broblem barhaus ynghylch tipio anghyfreithlon ar lonydd.

**Llwybrau Mwy Diogel** - Ym mis Mawrth 2018, cwblhawyd y Grant Llwybrau Mwy Diogel, pan roddwyd nifer o lwybrau 20mya ar waith o gwmpas ein hysgolion a gosodwyd croesfan pelican ar Heol Foxhole ar ôl blynyddoedd lawer o ymgyrchu.

**Parcio i Breswylwyr** - Mae parcio'n parhau i beri pryder mawr i breswylwyr. Rwyf wedi ymwneud â nifer o gynlluniau newydd sy'n cynnwys Stryd yr Ysgol a Stryd Tŷ Mawr. Rwyf hefyd wedi ymwneud â nifer o geisiadau am gilfannau parcio i bobl anabl ar gyfer preswylwyr.

**Blodau gwyllt** - Ers nifer o flynyddoedd, rwyf wedi cefnogi plannu blodau gwyllt mewn nifer o leoliadau ledled y ward. Mae hyn yn cynnwys lleoliad ger The Ship, gyferbyn â thafarn Mile End.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
Cymdeithas Gweithwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus – Is-Gadeirydd Cymru
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cyd-gyngor Cymru
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Hyrwyddwr y cyngor – Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol
Cyd-bwyllgor Ymgynghorol gydag Undebau Llafur – Cyd-gadeirydd
Pwyllgor y Gronfa Bensiwn – Cadeirydd
Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol – Bwrdd Ymgynghorol Cynlluniau'r DU/Cynrychiolydd Cymru

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwy'n parhau i weithio gyda nifer o grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys: Cyfeillion Parc Polly, GSP, Clwb Bowlio Parc Jersey/St Thomas, Port Tennant Colts/Mile End, Canolfan Gymunedol Ashland, Cenhadaeth Gwyn, Neuadd Eglwys St Thomas.
Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Danygraig ac rwyf hefyd yn gwasanaethu fel llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol St Thomas.
Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â sarsiant yr heddlu Paul Rees a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i drafod unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r ward.
Rydym wedi ariannu nifer o brosiectau lleol gan ddefnyddio'n dyraniad Cyllideb Cymunedol e.e. noddi adran iau Port Tennant Colts.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ym mis Tachwedd 2017, cynrychiolais Gyngor Abertawe yng nghynhadledd ranbarthol Rhwydwaith Dinasoedd Rhyng-ddiwylliannol Cyngor Ewrop yn Lisbon.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch (Dirprwy Arweinydd y Cyngor): £37,100

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29/10/2018 |